



DYSGU DRWY CHWARAE

Drysfa tedis

Bydd y gweithgaredd hwn yn annog eich plentyn i archwilio a datrys problem yn y ffordd orau i gael eu tedi allan o'r ddrysfa. Mae hefyd yn datblygu eu sgiliau echddygol manwl a chanolbwyntio.

Byddwch angen:

- Basged olchi blastig
- Llinyn
- Tedis/teganau (gwahanol feintiau os yn bosibl)

Dull:

- Rhowch dedis/deganau eich plentyn yn y fasged olchi
- Defnyddiwch y llinyn a'r tyllau yn y

DYSGU DRWY CHWARAE - Drysfa tedis

fasged i wneud gwe pryf copyn dros ben y tedis

- Gwnewch yn siŵr bod yna wahanol fathau o fylchau fel y bydd rhai yn haws i gael y tedis drwodd nac eraill
- Nawr anogwch eich plentyn i gael eu tedi allan o'r ddrysfa
- Os bydd y bwlch yn rhy fach i'r tedi ddod drwodd, anogwch eich plentyn i roi cynnig ar un arall

Pam ddim?

- Beth am chwilio ar-lein am fwy o weithgareddau plant sy'n defnyddio basgedi golchi?

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd ymuno gyda'ch plentyn i chwarae yn helpu i ddatblygu eu sgiliau datblygu tîm a'u helpu i ddatblygu eu hyder



RHYBUDD:
Mae angen goruchwyliaeth fanwl wrth chwarae gyda llinyn!

